

| <u>Dydd Sul</u> 12/9/21 | 9:45yb Cymun Teuluol | 5:00yh Hwyrrol Weddi ar-lein |
|----------------------------|---------------------------------------|---|
| Arwain | Mark | Mark |
| Blodau | | |
| Cyfeilio | Aeron | |
| Darllen | Elena | Mairwen |
| Darlleniadau | <i>Eseia 50.4-9a; Actau 20: 13-38</i> | <i>Exodus 18: 13-26; Mathew 7: 1-14</i> |
| Gweddïau | Non | Jane |
| Lluniaeth | Non a Mairwen | |
| Pregethu | Mark | Mark |

| <u>Dydd Sul</u> 19/9/21 | 9:45yb Mawl y Bore | 5:00yh Hwyrrol Weddi ar-lein |
|----------------------------|--|--|
| Arwain | Mark | Mark |
| Blodau | | |
| Cyfeilio | Aeron | |
| Darllen | Pedr | Mair |
| Darlleniadau | <i>Jeremeia 11.18-20; Actau 21. 1-16</i> | <i>Exodus 19: 10-25; Mathew 8: 23-34</i> |
| Gweddïau | Mairwen | Michael |
| Lluniaeth | | |
| Pregethu | Jamie | Mark |

24/10/21 9:45yb Gwasanaeth Diolchgarwch gyda Cynan LILWYD
 14/11/21 9:00yb Brecwast i bawb
 29/11/21 7:00yh Cyfarfod Pwyllgor y AWL
 25/12/21 9:45yb Cymun y Nadolig

Gweinidog:

Parch. Mark Ansell, Fenton, Maes y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2HL. 01970 617184 eglwysfair@gmail.com (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

Gweinidogion eraill:

Parch. **Cei Rees**, 01970 617184 cei@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)

Parch. **Liz Rees**, 01970 617184 liz@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)

Parch. **Becky Evans**, 01970 617184 becky@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

Parch. **Robert Wilkinson**, 01970 617184 robert@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Iau)



**Eglwys y
Santes
Fair**

**y Gair
y Groes
y Gymraeg**

12^{fed} o Fedi 2021

9:45yb Cymun Teuluol

5:00yh Hwyrrol Weddi ar-lein



Croeso i Eglwys y Santes Fair!

Diolch am ddod heddiw. Gobeithio eich bod chi'n gallu aros i gael paned gyda ni ar ddiwedd y gwasanaeth.



Bydd yr Ysgol Sul i blant a phobl ifanc yn aildechrau cyn bo hir.



Mae system dolen anwytho yn yr eglwys. Trowch eich teclyn clyw i'r gosodiad pwrpasol.

Ein Nod

Yn Eglwys y Santes Fair... rydym yn **creu cymuned** sy'n **caru'n cymdeithas** er mwyn **cyflwyno Crist**.

Gweddï Eglwys y Santes Fair

Arglwydd Iesu, addewaist adeiladu dy eglwys. Felly, os gweli di fod yn dda, adeilada dy eglwys yn ein plith.

Cymorth ni i ddyfnhau ein perthynas â thi, a chynydda'r nifer o Gristnogion newydd sy'n addoli yma trwy gydol y flwyddyn, er mwyn dy anrhydedd yn y plwyf hwn. **Amen**.

www.eglwysfair.cymru



Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth



@eglwysfair

Newyddion Teulu'r Eglwys

Gwasanaethau ar-lein

Mae gwasanaeth ar-lein am 5:00yh bob nos Sul drwy raglen Zoom. Bydd angen rhif y cyfarfod – sef 964 3320 1895 – a'r cyfrinair, sef 1588. Gallwch ymuno drwy ffôn hefyd: Ffoniwch - 0203 051 2874 ac wedyn rhowch rhif y cyfarfod, wedyn yr allwedd #, wedyn 1588 wedyn # eto.

Afghanistan

Mae *Tearfund* wedi lansio apêl i helpu pobl cyffredin Afghanistan. Os ydych chi am gyfrannu ewch i wefan Tearfund, neu rhowch eich cyfraniad yn y basged yng nghefn yr Eglwys.

Te a Choffi

Mae'n hyfryd ein bod ni'n gallu mwynhau paned gyda'n gilydd ar ddiwedd y gwasanaeth. Os ydych chi'n gallu helpu darparu lluniaeth ar ôl y gwasanaethau rhowch wybod - rydym yn creu rota o'r rhai sy'n gallu helpu ar hyn o bryd.

Eseia 50.4-9a

⁴Rhoes yr ARGLWYDD Dduw i mi dafod un yn dysgu, i wybod sut i gynnal y diffygiol â gair; bob bore y mae'n agor fy nghlust i wrando fel un yn dysgu.

⁵Agorodd yr ARGLWYDD Dduw fy nghlust, ac ni wrthwynebais innau, na chilio'n ôl.

⁶Rhoddais fy nghefn i'r curwyr, a'm cernau i'r rhai a dynnai'r farf; ni chuddiais fy wyneb rhag gwaradwydd na phoer.

⁷Y mae'r Arglwydd DDUW yn fy nghynnal, am hynny ni chaf fy sarhau; felly gosodaf fy wyneb fel callestr, a gwn na'm cywilyddir.

⁸Y mae'r hwn sy'n fy nghyfiawnhau wrth law. Pwy a ddadlau i'm herbyn? Gadewch i ni wynebu'n gilydd; pwy a'm gwrthwyneba? Gadewch iddo nesáu ataf.

⁹Y mae'r Arglwydd DDUW yn fy nghynnal: pwy a'm condemnia?

Actau 20: 13-38

Y Fordaith o Troas i Miletus

¹³Aethom ninnau o flaen Paul i'r llong, a hwylio i gyfeiriad Asos, gan fwriadu ei gymryd i'r llong yno; oblegid dyma'r cyfarwyddyd a roesai ef, gan fwriadu mynd ei hun dros y tir. ¹⁴Pan gyfarfu â ni yn Asos, cymerasom ef i'r llong a mynd ymlaen i Mitylene. ¹⁵Wedi hwylio oddi yno drannoeth, cyraeddasom gyferbyn â Chios, a'r ail ddiwrnod croesi i Samos, a'r dydd wedyn dod i Miletus.

¹⁶Oherwydd yr oedd Paul wedi penderfynu hwylio heibio i Effesus, rhag iddo orfod colli amser yn Asia, gan ei fod yn brysio er mwyn bod yn Jerwsalem, pe bai modd, erbyn dydd y Pentecost.

Araith Paul i Henuriaid Effesus

¹⁷Anfonodd o Miletus i Effesus a galw ato henuriaid yr eglwys. ¹⁸Pan gyraeddasant ato, dywedodd wrthynt, "Fe wyddoch fel y bûm i gyda chwi yr holl amser, er y diwrnod cyntaf y rhois fy nhroed yn Asia, ¹⁹yn gwasanaethu'r Arglwydd â phob gostyngeddwydd, ac â dagrau a threialon a ddaeth i'm rhan trwy gynllwynion yr Iddewon. ²⁰Gwyddoch nad ymateliais rhag cyhoeddi i chwi ddim o'r hyn sydd fuddiol, na rhag eich dysgu chwi yn gyhoeddus ac yn eich cartrefi, ²¹gan dystiolaethu i Iddewon a Groegiaid am edifeirwch tuag at Dduw a ffydd yn ein Harglwydd Iesu. ²²Ac yn awr dyma fi, dan orfodaeth yr Ysbryd, ar fy ffordd i Jerwsalem, heb wybod beth a ddigwydd imi yno, ²³ond bod yr Ysbryd Glân o dref i dref yn tystiolaethu imi fod rhwymau a gorthrymderau yn fy aros. ²⁴Ond yr wyf yn cyfrif nad yw fy mywyd o unrhyw werth imi, dim ond imi allu cwblhau fy ngyrfa, a'r weinidogaeth a gefais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu i Efengyl gras Duw.

²⁵"Ac yn awr, rwy'n gwybod na chewch weld fy wyneb mwyach, chwi oll y bûm i'n teithio yn eich plith gan gyhoeddi'r Deyrnas. ²⁶Gan hynny, yr wyf yn tystio i chwi y dydd hwn fy mod yn ddieuog o waed unrhyw un; ²⁷oblegid nid ymateliais rhag cyhoeddi holl arfaeth Duw i chwi. ²⁸Gofalwch amdanoch eich hunain ac am yr holl braidd, y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn arolygwyr drosto, i fugeilio eglwys Dduw, yr hon a enillodd ef â gwaed ei briod un. ²⁹Mi wn i y daw i'ch plith, wedi fy ymadawiad i, fleiddiaid mileinig nad arbedant y praidd, ³⁰ac y cyfyd o'ch plith chwi eich hunain rai yn llefaru pethau llygredig, i ddenu'r disgyblion ymaith ar eu hôl. ³¹Gan hynny, byddwch yn wylidwrus, gan gofio na pheidiais i, na nos na dydd dros dair blynedd, â rhybuddio pob un ohonoch â dagrau. ³²Ac yn awr yr wyf yn eich cyflwyno i Dduw ac i air ei ras, sydd â'r gallu ganddo i'ch adeiladu, ac i roi i chwi eich etifeddiaeth ymhlith yr holl rai a sancteiddiwyd. ³³Ni chwenychais arian nac aur na gwisgoedd neb. ³⁴Fe wyddoch eich hunain mai'r dwylo hyn a fu'n gweini i'm hanghenion i ac eiddo'r rhai oedd gyda mi. ³⁵Ym mhopath, dangosais i chwi mai wrth lafurio felly y mae'n rhaid cynorthwyo'r rhai gwan, a dwyn ar gof y geiriau a lefarodd yr Arglwydd Iesu ei hun: 'Dedwyddach yw rhoi na derbyn.' "

³⁶Wedi dweud hyn, fe benliniodd gyda hwy oll a gweddïo. ³⁷Torrodd pawb i wylo'n hidl, a syrthio ar wddf Paul a'i gusanu, ³⁸gan ofidio yn bennaf am iddo ddweud nad oeddent mwyach i weld ei wyneb. Yna aethant i'w hebrwng ef i'r llong.